



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Y Bwli

Roderick Hunt Alex Brychta



Rhagor o
Dylluanod



DRAKE




Daeth geneth newydd i'r ysgol.
Roedd hi yn nosbarth Cad a Dids.
Enw'r eneth newydd oedd Rhian, a
doedd hi ddim yn edrych yn glên iawn.
Tynnodd stumiau ar Anneena.



Eisteddodd Rhian wrth ymyl Dids.
Doedd Dids ddim yn ei hoffi hi.
Cipiodd hi ei bensiliau a sgriblodd
ar ei lun.
Felly sgriblodd Dids ar ei llun hithau.



Achosodd Rhian helynt i Dids.
Aeth at Mrs Jones.
“Sgriblodd o ar fy llun i,” meddai.
Roedd Mrs Jones yn flin efo Dids.
Dywedodd y drefn wrtho.




Doedd neb yn hoffi'r eneth newydd.
Bwli oedd hi.
Galwodd enwau cas ar bawb.
Galwodd Dids yn geg injan, a
galwodd Wilff yn ben parot.


Roedd Rhian yn gas efo Cad.
Cymerodd ei chreision a'i galw'n
hen drwyn.
Roedd ar Cad ofn Rhian.
Roedd ar bawb ei hofn hi.



Roedd Rhian yn gas efo Anneena.
Galwodd hi'n snoban a
thynnu'i gwallt.
"Awtsh! Stopia!" meddai Anneena.
"Gad lonydd imi."



Roedd Wilma yn fwy na Rhian, felly
rhedodd i helpu Anneena.
Ond bwli oedd Rhian.
Galwodd Wilma'n ymennydd deinosor
a'i gwthio drosodd.



Tynnodd Rhian glust Dids a
wnâi hi mo'i gollwng.


“Dwed gyfrinach wrtha i,” meddai hi. “Brysia!”
Doedd Dids ddim eisiau dweud cyfrinach wrthi.
“Brysia, Ceg Injan,” meddai Rhian.

Tynnodd Rhian glust Dids yn gasach fyth.
Rhoddodd dro arni.

“Dwed gyfrinach wrtha i,” meddai hi. “Brysia!”
Doedd Dids ddim eisiau gwneud, ond dywedodd
wrth Rhian am yr allwedd hud.



Roedd Rhian eisiau gweld yr allwedd hud, felly
gorfododd Dids i fynd â hi adref.
“Gad imi weld yr allwedd yma,” meddai hi.
“Dwi eisiau antur hud.”




Aeth y plant i ystafell Dids.
Edrychodd Rhian ar yr allwedd hud, ond
wnâi hi ddim disgleirio.
“Dim ond hen allwedd ydi hi,” meddai hi.
“Dydi hi ddim yn allwedd hud siwr iawn.”




Wnâi'r allwedd hud ddim disgleirio
pan oedd Rhian yn cydio ynddi.
Ond, cyn gynted ag y cydiodd Dids yn yr allwedd,
dechreuodd ddisgleirio.
"Tric ydi o," meddai Rhian.



Aeth yr allwedd hud â'r plant ar
antur newydd. Aeth â Rhian hefyd.
"Help!" galwodd Rhian.
"Dydw i ddim yn hoffi hyn.
Gwnewch iddo stopio!"



Aeth yr allwedd hud â'r plant i
fuarth chwarae ysgol.
"Dim ond buarth chwarae ydi hwn," meddai Rhian.
"Nid antur hud ydi hon."
"Sut gwyddost ti?" gofynnodd Dids.




Roedd Rhian yn flin efo Dids.
"Antur hurt ydi hon, Ceg Injan,"
meddai Rhian. "Mae'r allwedd hud yn hurt."
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio, ond y
tro hwn, disgleiriodd yn goch.



Trodd yr hud Rhian yn geg injan.
“Be sy’n digwydd?” gwaeddodd Rhian.
“Dydw i ddim yn hoffi hyn.”
“Ceg injan wyt ti!” meddai Nadim.



Ceisiodd Rhian gipio'r allwedd hud, ond
taflodd Dids hi i Wilma.
“Rho'r allwedd i mi, Ymennydd Deinosor,”
gwaeddodd Rhian.
Disgleiriodd yr allwedd yn goch eto.




Trodd yr allwedd Rhian yn
ymennydd deinosor.

“Dydw i ddim yn hoffi hyn,” gwaeddodd Rhian.

Dechreuodd y plant chwerthin.

“Rhowch yr allwedd hud i mi!” gwaeddodd Rhian.




Taflodd Wilma yr allwedd i Wilff.

Ceisiodd Rhian ei chipio.

“Rho'r allwedd 'na i mi, Pen Parot,”
gwaeddodd.


Ond disgleiriodd yr allwedd eto.




Rhoddodd yr allwedd hud ben parot i Rhian.
Chwarddodd a chwarddodd y plant.
“Dydw i ddim yn hoffi hyn,” meddai Rhian.
“Dydi o ddim yn deg.
Rhowch yr allwedd hud i mi.”




Taflodd Wilff yr allwedd i Nadim.
“Rhowch yr allwedd 'na i mi!”
gwaeddodd Rhian.
Ceisiodd ei chipio, ond taflodd Nadim
hi i Anneena.



Gwylltiodd Rhian.
Ceisiodd daro Wilff, ond
disgleiriodd yr allwedd yn goch eto.
Gwnaeth yr allwedd i Rhian ei tharo'i hun.
"Awtsh!" meddai hi. "Roedd hynna'n brifo."



Dechreuodd Rhian grio.
Roedd hi eisiau i'r antur hud stopio.
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Y tro hwn, aeth â'r plant adref.



Edrychodd Cad a Dids ar Rhian, yna
edrychon nhw ar yr allwedd hud.
“Allwedd hud ydi hon,” meddai Cad,
“a dydi hi ddim yn hoffi bwllis.
Does neb yn hoffi bwllis.”




Rhedodd Rhian adref.
Roedd y plant yn falch, ond
roedd gan Cad dipyn o biti drosti.
“Antur ryfedd oedd honna,” meddai Cad.
“Roedd yr hud yn wahanol y tro hwn.”



Y diwrnod wedyn, gwelodd dau o blant mawr
Rhian.

Bwlis oedd y plant mawr, hefyd.

Roedden nhw eisiau fferins Rhian, felly
gwthion nhw hi yn erbyn y wal.



Yna tynnodd y bwllis glust Rhian.

“Help!” galwodd Rhian.


“Mae hynna’n brifo. Gollyngwch fi!” gwaeddodd.

Gwelodd Dids a Wilma y bwllis.

Wydden nhw ddim beth i’w wneud.



Cafodd Wilma syniad.
Rhedodd i ddweud wrth Mrs Jones am Rhian
a'r bwllis.
"Dowch ar frys, Mrs Jones," galwodd Wilma.
"Mae Rhian angen eich help chi."



Aeth Mrs Jones i helpu Rhian.
Dywedodd y drefn wrth y bwllis.
"Does neb yn hoffi bwllis," meddai Mrs Jones.
"Peth cas ydi bwllio.
Peidiwch â bwllio neb eto."




Siaradodd Mrs Jones efo'r plant i gyd.

“Does neb yn hoffi bwllis,” meddai hi.

“Roedd Wilma yn iawn wrth ddweud
wrth rywun mewn oed.


Gwnewch hynny bob amser.”



Roedd Rhian yn falch fod Dids a Wilma
wedi ei helpu hi.

“Diolch,” meddai.

Roedd hi'n dyfaru iddi fod yn fwli, a
wnaeth hi ddim bwllio neb wedyn.



Y diwrnod wedyn, daeth bachgen newydd
i'r ysgol.

Sam oedd ei enw a doedd o ddim
yn edrych yn glên iawn.

“O na!” meddai Dids.

Y Bwli



Coeden
Ddarllen
Rhydychen
Cam 7

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws



Rhagor o
Dylluanod

Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosauriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995
① Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
② Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-305-9



ISBN 0 86 174305 9

DRAKE

9 790861 743055